Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.10 Pensiynau

Mae pensiynau yn faes hynod o gymhleth a phwysig. Gyda'r pensiwn y wladwriaeth yn lleihau o ran gwerth, a'r llywodraeth yn ymrwymo fwyfwy i ddarparu pensiynau preifat, bydd rhaid i gyflogwyr y sector wirfoddol roi ystyriaeth i ddarpariaeth pensiynau ar gyfer eu gweithwyr.

Ar hyn o bryd, does dim gobygliad ar gyflogwyr i wneud cyfraniadau pensiwn i'w gweithwyr, ond efallai bydd rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth am bensiwn budd-ddeiliad. Fodd bynnag, mae llawer o gyflogwyr yn edrych ar wneud cyfraniadau pensiwn yn rhan bwysig o arfer dda, a ffordd o ddenu a chadw staff da. Mae rhai cyflogwyr sector gwirfoddol yn cytuno ar gynlluniau pensiwn yr awdurdod lleol. Os nad yw'r opsiwn yma ar gael, gall cyflogwr ddechrau ei gynllun ei hun. Mae'r opsiynau canlynol ar gael, ond bydd angen cyngor arbenigol i benderfynu ar yr opsiwn gorau.

Cynlluniau galwedigaethol cyflog olaf

Yn y cynlluniau yma mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau canran penodedig o'r cyflog. Yn gyfnewid am hyn, maen nhw'n derbyn pensiwn sy'n cyfateb i nifer y blynyddoedd a gyfrannwyd i'w 'cyflog olaf'. Nid yw cyfraniadau'r cyflogwyr yn 'benodedig' ond rhaid iddynt amrywio i sicrhau fod y gweithwyr yn derbyn y pensiwn a gytunwyd arno.

Mae'r mathau yma o gynllun pensiwn yn arferol yn y sector cyhoeddus ac ystyrir hwy i fod y cynllun fwyaf deniadol ym marn y gweithwyr. Gall hefyd fod yn opsiwn deniadol i'r cyflogwyr, os allant ymuno â` chynllun o'r fath, megis cynllun yr awdurdod lleol neu gynllun yr Ymddiriedolaeth Pensiynau, ble gwneir y gwaith gweinyddol cymhleth eisoes.

Cynlluniau galwedigaethol gwariant arian

Fel yn y cynllun pensiwn olaf, mae gweithwyr yn cyfrannu canran penodedig o'u cyflog yn rheolaidd. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad.

Pensiynau personol

Gall gweithwyr na sy'n aelodau o gynllun pensiwn galwedigaethol, ymaelodi â phensiwn personol. Rheolir y rhain gan gwmnïau yswiriant, ac maen nhw'n galluogi gweithwyr (a'u cyflogwyr os ydynt angen) i wneud cyfraniadau rheolaidd di-dreth.

Pensiynau personol grŵp

Mae hwn yn debyg i bensiwn personol, ond ei fod yn cynnwys nifer o weithwyr. Y cynllun yma efallai yw'r un fwyaf rhad yn nhermau gweinyddu o safbwynt cyflogwr.

Pensiynau budd-ddeiliad

Mae'r rhain yn bensiynau isel o ran cost, wedi'u hanelu at y rhai sy'n ennill rhwng tua £10,000 a £20,000 y flwyddyn, sydd heb gynllun pensiwn personol neu alwedigaethol. Rhaid i fwyafrif y cyflogwyr sy'n cyflogi pum person neu fwy gynnig y cynllun yma i'w gweithwyr. Gall methiant i wneud hyn arwain at ddirwyon sylweddol.

Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)

Mae pob gweithiwr a chyflogwr yn cyfrannu (drwy gyfraniadau uwch Yswiriant Cenedlaethol) at SERPS, heblaw bod y gweithiwr yn aelod o gynllun pensiwn galwedigaethol drwy gontract, neu wedi dewis tynnu allan o SERPS drwy eu cynllun pensiwn personol. Bydd pensiynau budd-ddeiliad hefyd yn darparu tynnu allan o SERPS.

Gwybodaeth bellach

Pension Guide
www.pensionguide.gov.uk

The Pensions Trust
www.thepensionstrust.org.uk

The Pension Sorter
www.pensionsorter.co.uk

The Pensions Advisory Service
www.pensionsadvisoryservice.org.uk

Occupational Pensions Regulatory Authority
www.thepensionsregulator.gov.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/12/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk